




wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

Nodiadau cymorth

Cymhwysedd a Gwybodaeth Banc

Hydref 2019





Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Cynnwys

Cymhwysra – Unigolion	4
Cyfrifon Banc – Unigolion	4
Cymhwysra – Sefydliadau.....	5
Llywodraethiant	6
Cyfrifon Banc – Sefydliadau.....	9

Cymhwystra – Unigolion

I fod yn gymwys i wneud cais fel unigolyn (sy'n cynnwys unig fasnachwyr) rhaid ichi:

- Allu gwneud cais yn **enw cyfreithiol** yr unigolyn sy'n gwneud y cais.
- Bod â chyfrif banc yn eich **enw cyfreithiol** (gweler yr adran ar gyfrifon banc)
- Bod yn hŷn na 18 oed a byw yng Nghymru.
- Bod yn dilyn gyrfa artistig neu gael eich cyflogi'n broffesiynol yn y celfyddydau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr ar eu liwt eu hunain.
- Peidio â bod mewn addysg amser llawn mewn ysgol, coleg neu brifysgol.
- Gallu darparu tystiolaeth o'ch hanes o hwyluso neu greu gwaith artistig i'w gyflwyno i gynulleidfaoedd.
- Peidio â bod heb gadw at unrhyw gytundeb ariannol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru.
- Peidio â bod ag unrhyw ofynion heb eu bodloni ar ddyfarniadau cyllid grant Cyngor Celfyddydau Cymru.

Dim ond un grant o'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol oddi wrthym ni y gallwch ei ddal ar unrhyw adeg benodol. Os ydych chi wedi cael cyllid prosiect o'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol oddi wrthym ni o'r blaen, bydd angen ichi fod wedi cyflwyno'ch adroddiad cwblhau inni cyn y gallwch wneud cais eto. **Ni fyddwn yn derbyn ffurflen gais gennych chi onid ydych wedi cyflwyno'r adroddiad cwblhau o'ch prosiect Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol blaenorol.**

Cyfrifon Banc – Unigolion

Wrth ichi gyflwyno'ch cais, bydd angen ichi gynnwys tystiolaeth bod gennych gyfrif banc yn eich enw cyfreithiol, sy'n cyd-fynd â'r enw yr ydych yn gwneud cais o dano. Ni allwn dderbyn ceisiadau a gyflwynir o dan enw llwyfan, er enghraifft.

Bydd arnom angen y dystiolaeth i gysylltu:

- bod y cyfrif yn eich enw cyfreithiol
- rhif y cyfrif
- y cod didoli
- bod y cyfeiriad ar y cyfrif banc yng Nghymru

Bydd angen i'r dystiolaeth hon fod:

- yn llai na 2 flwydd oed ar ddyddiad y cais
- ar ffurf gohebiaeth swyddogol gan y banc, er enghraifft:
 - ffotograffau o'r cerdyn banc ar gyfer y cyfrif sy'n dangos enw'r cyfrif, ei rif a'r cod didoli. (Os nad oes dystiolaeth o'ch enw ar y cerdyn bydd angen darparu gwybodaeth ychwanegol, yn eich cysylltu chi â manylion y cyfrif)
 - llythyr neu neges e-bost sy'n dangos yn glir y cafodd ei anfon gan eich banc yn cadarnhau'r wybodaeth ofynnol
 - sgrinluniau ohonoch wedi'ch mewngofnodi i'ch bancio ar-lein yn dangos eich enw a gwybodaeth eich cyfrif banc

Mae'n bosibl y bydd angen ichi gynnwys nifer o ddogfennau er mwyn sicrhau y gellir cysylltu'r wybodaeth ofynnol yn glir â manylion y cyfrif.

Os bydd eich cais yn llwyddo, byddwn yn gwirio'r wybodaeth hon trwy ofyn ichi ddarparu rhagor o fanylion am eich cyfrif. Ni fyddwn yn gallu rhyddhau unrhyw daliadau ichi hyd nes y byddwn wedi cael a gwirio'r wybodaeth hon.

Nodwch:

- Ni allwn dderbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sy'n gweithredu gyda phaslyfr yn unig.
- Ni allwn dderbyn cyfrifon ar y cyd.

Os nad ydych yn siŵr bod y wybodaeth sydd gennych yn bodloni ein gofynion o ran dystiolaeth bancio, anfonwch yr hyn sydd gennych atom trwy e-bost at Buddsoddiacariannu@celf.cymru fel y gallwn eich cyngori ymhellach.

Cymhwystra – Sefydliadau

Rhaid i'ch sefydliad:

- Fod o Gymru
- Bod â strwythur llywodraethiant sy'n bodloni ein gofynion (gweler yr adran ar lywodraethiant isod)
- Bod â chyfrif banc yn enw'ch sefydliad sydd ag o leiaf dau berson a all awdurdodi trafodion (gweler yr adran ar gyfrifon banc)
- Bod â Pholisi Cyfle Cyfartal sydd wedi cael ei adolygu gan eich corff llywodraethu yn y tair blynedd ddiwethaf ac sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol.

- Peidio â bod heb gadw at unrhyw gytundeb ariannol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru.
- Peidio â bod ag unrhyw ofynion heb eu bodloni ar unrhyw gyllid arall Cyngor Celfyddydau Cymru.

Os yw'ch prosiect yn cynnwys gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed, rhaid bod gennych hefyd:

- Polisi Diogelu / Amddiffyn Plant sydd wedi cael ei adolygu gan eich corff llywodraethu yn y tair blynedd ddiwethaf ac sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol.

Llywodraethiant

Os nad ydych wedi gwneud cais inni am gyllid erioed o'r blaen:

- bydd angen ichi gynnwys copi wedi'i lofnodi o'ch dogfen llywodraethu wrth gyflwyno'ch cais.

Os ydych wedi gwneud cais inni am gyllid yn y gorffennol:

- bydd angen ichi gynnwys copi wedi'i lofnodi o'ch dogfen llywodraethu os nad ydych wedi cyflwyno'ch dogfen llywodraethu inni yn ystod y **ddwy flynedd** ddiwethaf, neu os yw wedi cael ei **diweddar** ers y tro diwethaf ichi wneud cais.

Mae'r tabl isod yn nodi'r mathau o sefydliad y gallwn eu cyllido, a'r hyn y byddwn eisiau iddo gael ei gynnwys yn eich dogfennau llywodraethu. Os na allwch weld eich math o sefydliad ar y rhestr, neu os nad ydych yn siŵr a yw'ch sefydliad yn gymwys, cysylltwch â Thîm Grantiau a Gwybodaeth Cyngor Celfyddydau Cymru.

Strwythur y Sefydliad	Gofynion o ran Llywodraethiant
Cwmni wedi'i Gyfyngu drwy Warant	Rhaid i'r sefydliad fod ag o leiaf 2 ymddiriedolwr nad ydynt yn perthyn i'w gilydd neu nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad
Sefydliad Corfforedig Elusennol	Rhaid i'r dogfennau llywodraethu: <ul style="list-style-type: none"> • fod wedi'u lofnodi gan o leiaf dau ymddiriedolwr
Cwmni Buddiant Cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> • bod wedi'u cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau
Ymddiriedolaeth Elusennol	<ul style="list-style-type: none"> • nodi bod cyfarfodydd rheolaidd o'r bwrdd i gael eu cynnal • cynnwys cworwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau • cynnwys cymal Diddymu neu Glo Asedau priodol (gweler isod i gael cyfarwyddyd)

Strwythur y Sefydliad	Gofynion o ran Llywodraethiant
Cwmni wedi'i Gyfyngu drwy Gyfrannau	<p>Rhaid i'r sefydliad fod ag o leiaf 2 ymddiriedolwr nad ydynt yn perthyn i'w gilydd neu nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad</p> <p>Rhaid i'r dogfennau llywodraethu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • fod wedi'u llofnodi gan o leiaf dau ymddiriedolwr • bod wedi'u cofrestru gyda Thŷ'r Cwmniau a/neu'r Comisiwn Elusennau • nodi bod cyfarfodydd rheolaidd o'r bwrdd i gael eu cynnal • cynnwys cworwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau
Cymdeithas Anghorfforedig	<p>Rhaid i'r sefydliad fod ag o leiaf 2 ymddiriedolwr nad ydynt yn perthyn i'w gilydd neu nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad</p> <p>Rhaid i'r dogfennau llywodraethu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • fod wedi'u llofnodi gan o leiaf dau ymddiriedolwr • nodi bod cyfarfodydd rheolaidd o'r bwrdd i gael eu cynnal • cynnwys cworwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau • cynnwys cymal Diddymu neu Glo Asedau priodol (gweler isod i gael cyfarwyddyd)
Byrddau Iechyd Prifysgolion Awdurdodau Lleol Sefydliadau a lywodraethir gan yr uchod	<p>Nid yw dogfennau llywodraethu'n ofynnol ar gyfer y sefydliadau hyn, ond bydd angen inni weld llythyrau o gefnogaeth oddi wrth ddau uwch aelod o'r personél.</p>
Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig Partneriaeth Cyfyngedig Partneriaethau	<p>Rhaid i'r sefydliad fod ag o leiaf 2 ymddiriedolwr nad ydynt yn perthyn i'w gilydd neu nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad</p> <p>Rhaid i'r cytundeb partneriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • fod wedi'i lofnodi gan yr holl bartneriaid • nodi bod cyfarfodydd rheolaidd o'r bartneriaeth i gael eu cynnal • cynnwys cworwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau • cynnwys cymal Diddymu priodol

Strwythur y Sefydliad	Gofynion o ran Llywodraethiant
Partneriaethau Band	<p>Rhaid i'r cytundeb partneriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • fod wedi'i lofnodi gan yr holl bartneriaid <p>Rhaid iddo nodi hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trefniadau ariannol eich band • sut yr ydych yn gwneud penderfyniadau ynghylch y band • sut yr ydych yn rheoli offer eich grŵp • sut yr ydych yn rheoli newid yn yr aelodaeth a beth sy'n digwydd os yw aelod yn gadael • beth sy'n digwydd os ydych chi'n chwalu'r band • sut yr ydych yn rheoli perchnogaeth ar recordiadau'r grŵp, hawlfraint cyhoeddi ac incwm
Corfforaethau Statudol	Dylech siarad ag un o Swyddogion Cyngor y Celfyddydau cyn gwneud cais
Cymdeithasau Tai	Defnyddiwch y tabl uchod i ganfod eich strwythur
<p>Os ydych chi'n aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru, bydd angen ichi drafod eich prosiect gyda'ch Swyddog Arweiniol.</p>	
<p>Diffiniadau</p> <p>Dyma'n diffiniad ni o ymddiriedolwyr sy'n perthyn i'w gilydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Aelodau o'r teulu sy'n ymestyn i fam, tad, brawd, chwaer, mab, merch, nain/mam-gu neu daid/tad-cu. • Perthnasau trwy briodas sy'n ymestyn i briod, mab neu ferch yng nghyfraith a mam neu dad yng nghyfraith. <p>Mae cymal diddymu yn nodi'r hyn fydd yn digwydd i asedau sefydliad sy'n weddill (sy'n cynnwys arian parod ac asedau eraill) os caiff y sefydliad ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu.</p> <p>Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n gwneud cymal diddymu yn ofynnol, sy'n nodi y caiff unrhyw asedau sy'n weddill eu trosglwyddo i sefydliad sydd ag amcanion tebyg.</p> <p>Mae Clo Asedau yn sicrhau y caiff asedau sefydliad (gan gynnwys unrhyw elw neu warged arall a gynhyrchir gan ei weithgareddau) eu defnyddio er budd y gymuned.</p>	

Nid oes rhaid bod y celfyddydau wedi'u nodi yn amcanion eich sefydliad fel rhan o'i ddogfen llywodraethu, ond rydym yn hybu hyn yn gryf, ac mae'n bosibl y bydd yn rhoi inni sicrwydd ychwanegol ynghylch nodau artistig y prosiect wrth gyflwyno cais.

Nid yw rhai sefydliadau'n gymwys i wneud cais inni am gyllid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adrannau o lywodraethau
- Ysgolion (edrychwch ar ein rhaglen [Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau](#) yn lle hynny)
- Sefydliadau sydd o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd

Cyfrifon Banc – Sefydliadau

Wrth ichi gyflwyno'ch cais, bydd angen ichi gynnwys tystiolaeth bod gennych gyfrif banc yn enw'ch sefydliad ynghyd â thystiolaeth y gall o leiaf dau berson (llofnodwyr) awdurdodi trafodion.

Bydd arnom angen y dystiolaeth i gysylltu:

- bod y cyfrif yn enw'ch sefydliad
- y gall o leiaf dau berson awdurdodi trafodion
- rhif y cyfrif
- y cod didoli

Bydd angen i'r dystiolaeth hon fod:

- yn llai na 2 flwydd oed ar ddyddiad y cais
- ar ffurf gohebiaeth swyddogol gan y banc, er enghraifft:
 - ffotograffau o bob cerdyn banc ar gyfer y cyfrif sy'n dangos enw pob llofnodydd, enw'r cyfrif, ei rif a'r cod didoli. (Nid yw rhai cardiau banc yn dangos yr holl wybodaeth hon felly os mai dyma'r sefyllfa, bydd angen ichi ddarparu gwybodaeth ychwanegol sy'n cysylltu'ch sefydliad â manylion y cyfrif)
 - llythyr neu neges e-bost sy'n dangos yn glir y cafodd ei anfon gan eich banc yn cadarnhau'r wybodaeth ofynnol
 - sgrinluniau o bob llofnodydd wedi'i fewngofnodi i'r bancio ar-lein yn dangos ei enw ynghyd â gwybodaeth cyfrif banc y sefydliad.

Mae'n bosibl y bydd angen ichi gynnwys nifer o ddogfennau er mwyn sicrhau y gellir cysylltu'r wybodaeth ofynnol yn glir â manylion y cyfrif.

Os bydd eich cais yn llwyddo, byddwn yn gwirio'r wybodaeth hon trwy ofyn ichi ddarparu rhagor o fanylion am eich cyfrif. Ni fyddwn yn gallu rhyddhau unrhyw daliadau ichi hyd nes y byddwn wedi cael a gwirio'r wybodaeth hon.

Nodwch:

- Ni allwn dderbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sy'n gweithredu gyda phaslyfr yn unig.
- Ni fydd angen i gyrff statudol (megis awdurdodau lleol, cynghorau tref, byrddau iechyd neu brifysgolion) ddarparu'r wybodaeth hon. Yn yr achosion hyn, rhaid i fanylion y cyfrif a ddarperir fod yn enw'r sefydliad neu enw ei awdurdod lleol.

Os nad ydych yn siŵr bod y wybodaeth sydd gennych yn bodloni ein gofynion o ran tystiolaeth bancio, anfonwch yr hyn sydd gennych atom trwy e-bost at Buddsoddiacariannu@celf.cymru fel y gallwn eich cynghori ymhellach.